Cymraeg

Stori fer: 'Rhyfel cartref arall'

Denodd y gystadleuaeth bedwar ymgeisydd, a braf yw nodi bod pob un yn medru ysgrifennu Cymraeg yn gywir ac yn hyderus.

Mae **Pesimist** wedi camddeall y testun a wedi llunio traethawd. Mae ei Gymraeg yn gadarn, heblaw am ambell wall cystrawennol fel *'mae .. ddim'*, a'i adnoddau iaith yn eang. Ond sonia am dri rhyfel cartref, a byddai'n fwy effeithiol datblygu ymdriniaeth ag un rhyfel un unig.

Mae stori **Dulais** am ffrwgwd mewn tafarn yn dechrau â naws ysgafn a hiwmor, ond mae'n troi'n ormod o adroddiad gan un cymeriad. Mae'r sefyllfa gyda'r saethu yn y diwedd braidd yn afrealistig. Ceir peth defnydd effeithiol o dafodiaith i greu cymeriad ac awyrgylch, ond anghyson yw'r iaith lafar oherwydd y defnydd o ffurfiau llenyddol fel *'iddynt'* a *'nid ydynt.'*

Effaith newid hinsawdd a'r wlad yn suddo dan lifogydd yw testun **Tyddynwr**. Mae'r naratif yn llifo'n gyflym o un olygfa i'r llall a'r iaith yn gywir gan fwyaf. Mae'r hen ŵr ar y dechrau a'r diwedd yn cloi'r hanes yn dwt. Fodd bynnag, does dim gwir ryfel cartref yma, ac mae'r cywair difrifol yn troi'n ffars pan geir Gordon Brown a David Cameron yn llythrennol yn yr un cwch! Sonnir am lawer o unigolion yma, ond byddai'n well canolbwyntio ar ddau neu dri a datblygu mwy ar eu cymeriad a'u hymateb i'r drychineb.

Hanes o gynllwynio adeg gwrthryfel Beca sydd gan **Cydymdeimlwr.** Mae'r awdur hwn yn creu awyrgylch yn fedrus a cheir rhai disgrifiadau da, iaith raenus ar y cyfan, a pheth cymeriadu. Yn y bôn, dim ond dechreuad stori yw'r gwaith hwn, gosod yr olygfa ar gyfer yr antur a ddaw yn y man. Byddai cynnwys rhyw ddigwyddiad neu wrthdaro yn ei gwneud yn fwy o stori.

Doedd hi ddim yn hawdd penderfynu rhwng Tyddynwr a Cydymdeimlwr, ond gallu'r ail i drin iaith yn ddeheuig i greu golygfa a naws yw'r ffactor allweddol. Dyma'r canlyniad:

1. Cydymdeimlwr
2. Tyddynwr
3. Dulais
4. Pesimist

Cerdd i ddysgwyr: 'Ffarwel'

Cystadleuaeth lwyddiannus o ran safon, er mai pedwar yn unig a ymgeisiodd.

Dysgwr: Ymson deimladwy gan ferch sy'n ffarwelio â'i chariad a laddwyd mewn rhyfel. Eisiau tynhau tipyn ar y llinellau i wella'r rhythm.

Merch o Frynmawr: Ffarwelio ag Ysgol Gymraeg Brynmawr. Mae'n crynhoi emosiwn yr ymadael a'r ailadrodd *'Ffarwel .. ffarwel ..'* yn pwysleisio'r teimlad. Ond rhai llinellau'n llac a'r farddoniaeth yn mynd ar goll.

Marged: Perchennog ci yn dod o hyd iddo wedi marw ar y ffordd wedi chwilio drwy'r nos. Llinellau cryno a rhythm effeithiol yn cyfleu'r teimlad.

ByB: Cerdd mewn angladd. Y dywediadau ystrydebol am y gŵr sy'n cael ei gladdu yn cael eu dilyn gan y gwirionedd cas amdano: *'Dyro iddo orffwys' / a hithau'fyd … 'Fe gofiwn amdano', / a fedr hi byth anghofio / ei gamau, ac arogl o wisgi / yn nesáu yn y nos.'* Mae'r cyferbynnu hwn yn effeithiol iawn, a hefyd eironi'r pennill olaf lle dawnsia'r dail ar ben yr arch, a'r wraig weddw am ddawnsio hefyd yn ei gollyngdod.

Y canlyniad:

1. B y B
2. Marged
3. Dysgwr
3. Merch o Frynmawr

Limrig Cymraeg: 'Un noson a'r Fenni'n llawn twrw ..'

Pedwar ar bymtheg o geisiadau ar y limrig a 'r rhan fwyaf yn dangos bod eu hawduron wedi cael tipyn o hwyl arnyn nhw. Cadw'r rhythm cywir oedd y maen tramgwydd i nifer ac amharodd hyn ar sawl ymdrech addawol. Roedd cadw'r odl yn her i rai hefyd, a byddai limrig Dringwr sy'n chwarae'n glyfar ar *cwrw/chwerw* yn agos at ennill oni bai am geisio odli *dydd* a *swydd.*

Ar y cyfan, Morlais yw'r limrigwr gorau er iddo gael trafferth â'r rhythm mewn rhai o'i wyth ymdrech. Rwy'n hoffi'r hiwmor eironig yn llinell glo hwn:
Un noson a'r Fenni'r llawn twrw,
O'r India â'i nadredd daeth guru*;*
Er hudo â'i ffliwt,
Ni ddaeth mo'r un ciwt,
Ond llwyddodd i wneud iddi fwrw!

A dyma'r canlyniad:

1. Morlais (y *guru*)
2. Taliesin (y tylwyth teg)
3. Bryn (y plismyn mawr tew ..)